# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-12-08 (p4): 23 Gorffennaf 2008

### Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

Mae’r papur hwn yn rhestru’r wybodaeth ddiweddaraf a gafwyd am ddeisebau a ystyriwyd yn flaenorol gan y Pwyllgor.  Derbyniwyd llawer o’r wybodaeth ddiweddaraf fel gohebiaeth. Lle mae’n berthnasol, mae copïau o ohebiaeth wedi eu cynnwys fel atodiad PET(3) 12-08 Papur 4A i’r papur hwn.

### P-03-092 Ffordd Liniaru’r A465 i Ystâd Ddiwydiannol Tafarnaubach

### Geiriad y Ddeiseb

'Deiseb i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Ffordd liniaru’r A465 i Ystâd Ddiwydiannol Tafarnaubach, i gymryd Cerbydau Nwyddau Trwm oddi ar hen Ffordd Merthyr y tu allan i Ysgol Bryn Bach a Phentref Princetown’

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Trish Law AC ar ran y deisebwyr, yn cael eu harwain gan Doug Harris.

Mae’r pwyllgor yn galw am ffordd liniaru i gymryd Cerbydau Nwyddau Trwm bant o’r hen Ffordd Merthyr.

Rhoddodd y pwyllgor ystyriaeth i’r ddeiseb yma am y tro cyntaf ar 6 Mawrth 2008, a chlywodd dystiolaeth gan y deisebwyr ar 10 Ebrill 2008.

Ar 08 Mai 2008, aeth dau Aelod o’r Pwyllgor ar ymweliad ag ardal Bryn Bach i asesu’r sefyllfa o ran traffig a chynigion y deisebwyr. Rhoddodd y pwyllgor ystyriaeth i’r adroddiad o’r ymweliad ar 22 Mai 2008.

Mae’r Gweinidog dros Economi a Thrafnidiaeth wedi ymateb. Mae copi o’r ymateb wedi ei atodi fel PET(3) 12-03 Papur 4A.

**Gwasanaeth Pwyllgorau**
**Gorffennaf 2008**